ADRODDIAD

# TASGLU CYDRADDOLDEB HILIOL CAERDYDD

CRYNODEB GWEITHREDOL | MAWRTH 2022









# CYFLWYNIAD

Dros y deunaw mis diwethaf, mae Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd wedi cael y dasg o nodi cyfleoedd ymarferol ar gyfer newid i wella cydraddoldeb hiliol yn ein dinas, gan ddod o hyd i ffyrdd newydd y gallem ddefnyddio ysgogiadau lleol i wella canlyniadau i drigolion o Leiafrifoedd Ethnig.

Mae'r Crynodeb Gweithredol hwn yn rhestru'r argymhellion a ddatblygwyd gan Dasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd rhwng Gorffennaf 2020 a Mawrth 2022. Mae'n grynodeb gweithredol o adroddiad llawn y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol, sydd i'w weld yn: Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd


## Amcanion Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd

Sefydlwyd Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd i weithio yn unol â'r amcanion canlynol:

- Gweithio gyda chymunedau a sefydliadau Caerdydd i wella a blaenoriaethu cydraddoldeb hiliol er mwyn sicrhau dinas gynhwysol, gydlynol, ffyniannus a chynrychioliadol;
- Arwain datblygwyr polisïau a strategaethau Caerdydd i sicrhau bod cydraddoldeb hiliol yn cael ei gynnwys yn eu holl waith;
- Defnyddio pŵer cynnull y Cyngor i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan weithio'n agos, lle bo angen, gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd;
- Cydlynu camau gweithredu ac argymhellion i hybu cydraddoldeb hiliol, gan ganolbwyntio ar ffrydiau gwaith â blaenoriaeth wedi'u nodi trwy ymgynghori â phreswylwyr y ddinas o leiafrifoedd ethnig;
- Adrodd am ein cynnydd o ran cydraddoldeb hiliol ac effaith gyffredinol anghydraddoldeb a gwahaniaethu ar gymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghaerdydd.

## Tasglu Cydraddoldeb Hiliol: Blaenoriaethau ar gyfer newid

Yn y tudalennau canlynol o'r Crynodeb Gweithredol hwn, rydym yn darparu rhestr o'r argymhellion a ddatblygwyd gan y Tasglu i gefnogi'r gwaith o gynllunio a chyflawni camau gweithredu ar gydraddoldeb hiliol yn ein prifddinas yn y dyfodol.



# THEMA 1: CYFLOGAETH A GWEITHLU CYNRYCHIOLADOL

| Cyfeirnod | Argymhelliad |
|---|---|
| 1.1 | Datblygu rhwydwaith ledled y ddinas i gyflogwyr annog arfer da a gweithredu ar y cyd ar gyflogaeth i wella cynrychiolaeth a dilyniant pobl o leiafrifoedd ethnig yn y farchnad lafur leol |
| 1.2 | Dod yn un o lofnodwyr Cytundeb Swyddi Cymunedol Caerdydd |
| 1.3 | Defnyddio pwerau cynllunio a chomisiynu i'w gwneud yn ofynnol i gyflogwyr recriwtio prentisiaethau o grwpiau difreintiedig a gwella tryloywder ynghylch amrywiaeth eu gweithluoedd |
| 1.4 | Cefnogi gweithlu cynhwysol ac ymgysylltiedig lle mae'r holl staff yn deall ac yn cyfrannu at gydraddoldeb hiliol drwy raglennu mewnol sy'n codi ymwybyddiaeth |
| 1.5 | Cynyddu cyfranogiad grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn y Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith |
| 1.6 | Gwella amlygrwydd a mynediad at Caerdydd ar Waith ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig |
| 1.7 | Cefnogi llwybrau dilyniant gyrfa ar gyfer gweithwyr o leiafrifoedd ethnig yng Nghyngor Caerdydd |
| 1.8 | Dylai Cyngor Caerdydd archwilio rhaglen Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill a arweinir gan y cyflogwr ar gyfer staff y Cyngor lle mae eu sgiliau iaith yn rhwystr i ddilyniant |



# THEMA 2: ADDYSG A PHOBL IFANC

| Cyfeirnod | Argymhelliad |
|---|---|
| 2.1 | Cryfhau'r ffyrdd yr ymdrinnir â bwlio a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn yr ysgol |
| 2.2 | Ymestyn gwaith Ysgolion Noddfa i rwydwaith ehangach o ysgolion a chefnogi cyfranogiad cymunedau ffoaduriaid a cheiswyr lloches |
| 2.3 | Gwella profiadau disgyblion ac athrawon duon, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig mewn ysgolion drwy fabwysiadu ymagwedd gynhwysol a gwrth-hiliol at addysgu a phrofiad ysgol |
| 2.4 | Cefnogi'r gwaith o amrywio'r gweithlu addysgu drwy Raglen 'Camu i Addysgu' ar gyfer cynorthwywyr addysgu |
| 2.5 | Cynyddu cynrychiolaeth trigolion o leiafrifoedd ethnig mewn timau arwain ysgolion drwy raglen fynediad Llywodraethwyr Ysgol |
| 2.6 | Rhoi mwy o sylw i fodelau rôl o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig a chynyddu addysg gyhoeddus ar Hanes Pobl Dduon drwy raglennu digwyddiadau |





# THEMA 3: LLAIS Y DINESYDD

| Cyfeirnod | Argymhelliad |
|---|---|
| 3.1 | Gwella'r broses o gasglu a dadansoddi data ar gyfranogiad dinasyddion |
| 3.2 | Cefnogi maniffesto Cynghrair Hil Cymru a meincnodi yn ôl eu hargymhellion i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yng Nghymru |
| 3.3 | Pennu cwmpas cyfleoedd i gynyddu cyfranogiad ac ymgysylltiad ieuenctid â phrosesau dinesig a datblygu dulliau i gefnogi cynrychiolaeth ieuenctid o leiafrifoedd ethnig mewn gwleidyddiaeth ac yn y broses o wneud penderfyniadau |
| 3.4 | Dylai aelodau etholedig Cyngor Caerdydd gefnogi Datganiad Cyngor Amrywiol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i gefnogi amrywiaeth mewn democratiaeth a chynrychiolaeth grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn y brifddinas |
| 3.5 | Gwella cynrychiolaeth pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig Caerdydd mewn paneli gwneud penderfyniadau allweddol |
| 3.6 | Ehangu cyfranogiad a hygyrchedd wrth gynllunio dinasoedd a sicrhau bod llwyfannau priodol ar gyfer ymgysylltu a llais cymunedol yn nyluniad y ddinas |







# THEMA 4: IECHYD

| Cyfeirnod | Argymhelliad |
|---|---|
| **4.1** | Gwella cofnodi ethnigrwydd o fewn y system gofal iechyd, ar gyfer cleifion a staff |
| **4.2** | Cwblhau ymchwiliad pellach i brofiadau staff a chleifion o leiafrifoedd ethnig ac adolygu'r weithdrefn gwyno a datrys |
| **4.3** | Gwella'r ymgysylltu a'r cyfathrebu â chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ynghylch iechyd a gwella iechyd. |

# THEMA 5: CYFIAWNDER TROSEDDOL

| Cyfeirnod | Argymhelliad |
|---|---|
| 5.1 | Ymrwymo i gasglu data ethnigrwydd a chydweithio ar ddadansoddi ac archwilio data ar lefel leol a chenedlaethol, gan ddilyn dull Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru (Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan gynt). |
| 5.2 | Dylai partneriaeth cyfiawnder troseddol lleol Caerdydd ddatblygu a buddsoddi mewn dulliau wedi'u teilwra neu ddulliau amgen o ddargyfeirio ar gyfer grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig. |
| 5.3 | Dylai Caerdydd ddod yn safle peilot ar gyfer y dull hyfforddi Cymhwysedd Diwylliannol newydd y cytunwyd arno gan Gyfiawnder Troseddol yng Nghymru yn eu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol. |
| 5.4 | Cynnal a datblygu ymdrechion cyfredol i gynyddu cynrychiolaeth y gweithlu o fewn y System Cyfiawnder Troseddol a datblygu dull ehangach o fynd i'r afael â chynrychiolaeth ar draws y sector ehangach, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |
| 5.5 | Dylai Sector Cyfiawnder Troseddol lleol Caerdydd gymryd rhan yng Nghynllun Kickstart yr Adran Gwaith a Phensiynau fel ffordd arall o fynd i'r afael â chynrychiolaeth o'r gweithlu. |
| 5.6 | Datblygu gwell llwybrau gwasanaeth iechyd meddwl a hyfforddiant a chymorth integredig i Swyddogion yr Heddlu fel ymatebwyr cyntaf. |
| 5.7 | Datblygu dulliau newydd i gryfhau ymgysylltiad a llais cymunedol yng ngwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. |
| 5.8 | Cefnogi meithrin gallu gyda grwpiau sector gwirfoddol dan arweiniad lleiafrifoedd ethnig i gryfhau cydweithredu a chyflawni o fewn gwasanaethau cymorth y sector gwirfoddol sy'n gysylltiedig â chyfiawnder troseddol. |

